

ADRODDIAD AR Y  
GWAITH O FONITRO  
CYMWFYSTERAU  
**CYMORTH  
CYNTAF**  
YNG NGHYMURU



Mai 2018

# CYNNWYS

<b>1. Crynodeb gweithredol</b>	<b>2</b>
<b>2. Y dull o fonitro cymwysterau galwedigaethol</b>	<b>4</b>
<b>3. Y dirwedd cymorth cyntaf ehangach</b>	<b>5</b>
<b>4. Y cymwysterau cymorth cyntaf a reoleiddir gennym</b>	<b>7</b>
<b>5. Sut y gwnaethom fonitro'r cymwysterau</b>	<b>10</b>
<b>6. Yr hyn a ganfuom</b>	<b>11</b>
<b>7. Y camau a gymerwyd gennym</b>	<b>14</b>
<b>8. Casgliad a'r camau nesaf</b>	<b>16</b>
<b>Atodiad 1 - Assessment Principles for Regulated First Aid Qualifications [yn Saesneg]</b>	<b>17</b>
<b>Atodiad 2 – Ystadegau ar gyfer cymwysterau cymorth cyntaf</b>	<b>26</b>

# 1. Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r gwaith monitro a wnaed gennym mewn perthynas â chymwysterau cymorth cyntaf a gynigir gan gyrff dyfarnu a reoleiddir yng Nghymru. Mae'n esbonio ein rhesymeg dros wneud y gwaith a sut y gwnaethom gyflawni'r gweithgarwch monitro ac yn crynhoi ein canfyddiadau a'r camau a gymerwyd gennym o ganlyniad i hynny. Hwn yw ein gweithgaredd monitro a chydymffurfio manwl cyntaf fel rhan o'n rhaglen monitro cymwysterau galwedigaethol. Mae'r gwaith o fonitro cymwysterau cymorth cyntaf yn rhan o'n rhaglen ehangach o weithgarwch monitro cymwysterau galwedigaethol fel y'i nodir yn ein Strategaeth ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016.

Canolbwyntiodd ein gweithgarwch monitro ar bedwar cymhwyster cymorth cyntaf allweddol a gynigir gan 14 o gyrff dyfarnu, sef:

- Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (EFAW);
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (FAW);
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig Brys (EPFA); a
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig (PFA).

Gwnaethom ysgrifennu at y 14 corff dyfarnu ym mis Rhagfyr 2016, yn gofyn am dystiolaeth ar gyfer ein gweithgarwch monitro. Gyda chymorth arbenigwyr cymorth cyntaf ac arbenigwyr asesu, adolygwyd y dystiolaeth yn erbyn ein Hamodau Cydnabod Safonol, sy'n nodi ein gofynion o ran dylunio ac asesu cymwysterau a sicrhau eu hansawdd.

Nodwyd gennym fod cynnwys y cymwysterau yn addas at y diben a'i fod yn adlewyrchu arfer cymorth cyntaf cyfredol. Dangosodd dau gorff dyfarnu i ni eu bod yn cydymffurfio â'n hamodau safonol. Fodd bynnag, nododd ein gwaith monitro ddiffygion sylweddol mewn sawl corff dyfarnu. Ystyriwyd y rhain i fod yn ddiffyg cydymffurfiaeth â'n gofynion rheoleiddiol mewn nifer o achosion. Roedd rhai o'r meysydd allweddol o ddiffyg cydymffurfiaeth a nodwyd yn cynnwys:

- gwaith asesu nad oedd yn ddangosydd dilys na dibynadwy o gymhwysedd;
- gwaith asesu nad oedd yn asesu'r meini prawf asesu gofynnol yn ddigonol mewn ffordd a oedd yn sicrhau bod deilliannau dysgu wedi'u cyflawni;
- diffyg trylwyredd a rheolaethau o ran cynnal asesiadau;
- gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol annigonol; a
- methu â monitro trefniadau gyda chanolfannau yn effeithiol.

Pan nodwyd achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth, gofynnwyd i'r cyrff dyfarnu gymryd camau unioni er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn. Gwnaethom ofyn i saith corff dyfarnu gyflwyno cynlluniau gweithredu i ni yn nodi sut roeddent yn bwriadu mynd i'r afael â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfiaeth. Yn achos pum corff dyfarnu, roeddem o'r farn bod y problemau a oedd yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth mor gyffredin a sylweddol fel bod angen cymryd camau rheoleiddio mwy ffurfiol.

Yn yr achosion hyn, gwnaethom ysgrifennu at y cyrff dyfarnu i'w hysbysu am ein bwriad i roi cyfarwyddyd yn gofyn iddynt gymryd camau unioni prydlon. Yn ein llythyr, gwnaethom hysbysu'r corff dyfarnu y gallai methu â mynd i'r afael â phob mater yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth a oedd wedi'i nodi yn y cyfarwyddyd hwnnw olygu na fyddai'n cael ei gydnabod mwyach fel corff i ddyfarnu'r cymwysterau yng Nghymru. Rhoddodd pob un o'r pum corff dyfarnu y cyflwynwyd yr hysbysiad iddynt ymgymeriad i ni yn ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn unol â'n hamserlenni. Gwnaethom dderbyn yr ymgymeriadau hyn fel dewis amgen i roi'r cyfarwyddiadau.

Cyflwynodd pob un o'r cyrff dyfarnu nad oeddent yn cydymffurfio dystiolaeth i ni yn dangos sut roeddent wedi cymryd y camau gofynnol erbyn 1 Chwefror 2018. Rydym wedi adolygu pob cyflwyniad ac yn fodlon bod pob corff dyfarnu wedi cymryd camau priodol er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd gennym.

Yn sgîl ein gweithgaredd monitro, rydym yn hyderus bod mwy o gysondeb bellach o ran arfer a thrylwyredd rhwng pob un o'r cyrff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau hyn. Dylai'r camau a gymerwyd gennym roi hyder i gyflogwyr sy'n dewis cymhwyster cymorth cyntaf a reoleiddir ar gyfer eu cyflogeion ac ar gyfer dysgwyr sydd wedi cofrestru i astudio ar gyfer y cymwysterau hyn.

## 2. Y dull o fonitro cymwysterau galwedigaethol

Mae ein rhaglen fonitro ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn canolbwyntio ar gymwysterau a grwpiau o gymwysterau sydd y tu hwnt i gwmpas ein rhaglen o adolygiadau sector. Nod ein gwaith monitro yw sicrhau bod y cymwysterau galwedigaethol hynny a gaiff eu monitro gennym yn addas at y diben pan fydd dysgwyr yng Nghymru yn astudio ar eu cyfer. Mae ein rhaglen o waith monitro penodol yn dangos i gyrff dyfarnu bod gennym ddiddordeb brwd yn ansawdd y broses o asesu cymwysterau galwedigaethol.

Rydym yn adolygu ein cynlluniau monitro yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb i faterion sy'n codi – gan weithredu ar yr un pryd mewn modd strategol wrth ddewis cymwysterau i'w monitro. Byddwn yn ystyried nifer o ffactorau wrth benderfynu pa gymwysterau i'w monitro. Yn benodol, rydym yn canolbwyntio ar gymwysterau:

- sy'n gymwys i gael cyllid cyhoeddus;
- sydd â lefelau cofrestru ac ardystio uchel;
- sy'n asesu meysydd gwaith lle mae diogelwch yn hanfodol;
- sy'n bodloni gofyniad i ymarfer, neu drwydded i ymarfer;
- sy'n darparu mynediad i Addysg Uwch; ac
- y mae pryderon wedi'u codi yn eu cylch yn dilyn ymchwiliad i gwynion neu ddigwyddiadau.

Ar ôl ystyried y ffactorau hyn, penderfynwyd canolbwyntio ein rhaglen fonitro ar gymwysterau yn y meysydd canlynol: Cymorth Cyntaf (2017), Diogelwch Bwyd (2018) ac Iechyd a Diogelwch (2019).

Fel rhan o'n gweithgarwch monitro, byddwn yn cymharu ac yn cyferbynnu gwybodaeth a thystiolaeth o wahanol gyrff dyfarnu i brofi cydymffurfiaeth gyda'n [Hamodau Cydnabod Safonol](#) ac yn canolbwyntio ar y canlynol:

- dilysrwydd a dibynadwyedd yr asesiad a'r safonau a bennwyd;
- eu prosesau sicrhau ansawdd allanol; ac
- y canllawiau a ddarperir ganddynt i ddarparwyr dysgu – ac i ba raddau y mae hynny'n ddigonol i ddiwallu eu hanghenion.

Lle y bo'n bosibl, rydym yn ceisio cael adborth gan ddysgwyr, darparwyr dysgu a rhanddeiliaid allweddol eraill ac yn cynnwys arbenigwyr pwnc wrth wneud rhywfaint o'r gwaith.

## 3. Y dirwedd cymorth cyntaf ehangach

### Cymorth Cyntaf yn y Gwaith

Cyn 1 Hydref 2013, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a fyddai'n cymeradwyo pob cwrs hyfforddi a chymhwyster cymorth cyntaf. Diwygiwyd [The Health and Safety \(First Aid\) Regulations 1981](#) ym mis Hydref 2013 er mwyn adlewyrchu'r ffaith nad oedd HSE yn cymeradwyo pob cwrs a chymhwyster cymorth cyntaf mwyach. Cyflwynwyd y newid hwn er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i gyflogwyr o ran sut maent yn rheoli'r cymorth cyntaf a ddarperir ganddynt yn eu gweithle. Mae HSE yn parhau i bennu'r cynnwys gorfodol ar gyfer unrhyw hyfforddiant cymorth cyntaf yn y gwaith neu gymorth cyntaf brys yn y gwaith.

Mae'n ofynnol i gyflogwyr asesu anghenion eu sefydliad o ran cymorth cyntaf er mwyn nodi pa ddarpariaeth cymorth cyntaf sydd ei hangen arnynt. Mae HSE yn cynnig canllawiau ac adnoddau er mwyn helpu cyflogwyr i gwblhau asesiadau o anghenion cymorth cyntaf. Bydd y trefniadau y mae angen i gyflogwr eu rhoi ar waith yn dibynnu ar ffactorau megis nifer y cyflogeion, y math o waith a wneir a'r peryglon a'r risgiau yn y gweithle.

Os bydd asesiad cyflogwr o anghenion yn dangos bod angen un neu fwy o gynorthwywyr cymorth cyntaf arnynt yn y gweithle, dylent sicrhau bod y bobl hynny wedi cael hyfforddiant priodol naill ai mewn cymorth cyntaf yn y gwaith neu gymorth cyntaf brys yn y gwaith. Mae'n ddyletswydd ar y cyflogwr i sicrhau bod unrhyw ddarparwr hyfforddiant a ddewisir ganddo yn gymwys i gyflwyno'r hyfforddiant a bod y cyflogwr yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy er mwyn cadarnhau cymhwysedd y darparwr. Dylai'r gwiriadau hyn gynnwys cymwysterau hyfforddwyr ac aseswyr; systemau monitro a sicrhau ansawdd; addysgu a safonau arfer cymorth cyntaf; cynnwys cyrsiau; ac ardystio.

Gall cyflogwyr ddewis darparwr o blith y canlynol:

- cyrff dyfarnu a reoleiddir;
- darparwyr sy'n gweithredu o fewn cynllun achredu gwirfoddol; neu
- ddarparwyr sy'n gweithredu'n annibynnol y tu allan i unrhyw un o'r uchod, gan gynnwys cymdeithasau cymorth gwirfoddol megis Ambiwlans Sant Ioan, y Groes Goch Brydeinig a St Andrew's First Aid.

Os bydd cyflogwr yn dewis cymhwyster a reoleiddir a gyflwynir gan ddarparwr hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo gan gorff dyfarnu a reoleiddir, noda HSE nad oes angen iddo ddogfennu unrhyw wiriadau diwydrwydd dyladwy. Y rheswm dros hyn yw bod yn rhaid i gorff dyfarnu a reoleiddir gydymffurfio â'n Hamodau Cydnabod Safonol, sy'n nodi gofynion o ran dylunio ac asesu cymwysterau a sicrhau eu hansawdd ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu roi prosesau monitro cadarn ar waith er mwyn cadarnhau ansawdd eu darparwyr hyfforddiant. Felly, gall cyflogwr sy'n dewis cymhwyster a gynigir gan gorff dyfarnu a reoleiddir ddisgwyl yn rhesymol i ansawdd y cwrs a'r gwaith asesu fod o safon dda. Nid yw ystyried ansawdd hyfforddiant cymorth cyntaf nac ansawdd cymwysterau na chânt eu rheoleiddio yn rhan o'n cylch gwaith rheoleiddiol. Nid oes unrhyw ddata ar gael ar faint o gymwysterau nas rheoleiddir neu gyrsiau hyfforddiant cymorth cyntaf a gwblheir yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym wedi rhannu ein hadroddiad â HSE er mwyn iddo ei ystyried yng ngoleuni'r materion a nodwyd yn y farchnad cymwysterau a reoleiddir.

### Cymorth Cyntaf Pediatrig

Mae Dyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig Brys a Dyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig yn gymwysterau allweddol i'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant. Mae'n ofynnol i wasanaethau gofal plant a reoleiddir yng Nghymru gyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ar gyfer plant hyd at 12 oed](#) a chânt eu monitro gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r safonau hyn yn nodi bod yn rhaid i ofalwyr plant ac o leiaf un unigolyn mewn unrhyw leoliad gofal dydd feddu ar gymhwyster cymorth cyntaf cyfredol sy'n briodol ar gyfer oedran y plant y gofelir amdanynt.

## 4. Y cymwysterau cymorth cyntaf a reoleiddir gennym

Rydym yn cymryd y cyfrifoldeb sydd gennym fel rheoleiddiwr cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau cymorth cyntaf o ddifrif. Os bydd cyflogwr neu ddarparwr gofal plant yn dewis cymhwyster a reoleiddir gennym ar gyfer ei gyflogeion, rydym am sicrhau bod yr hyder sydd ganddo yn ansawdd y cymhwyster hwnnw, yn briodol.

Mae cymwysterau cymorth cyntaf ymhlith y cymwysterau galwedigaethol â'r lefelau ardystio uchaf yng Nghymru. Dyfarnwyd mwy na 31,000 o gymwysterau cymorth cyntaf a reoleiddir yng Nghymru rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016.

Canolbwyntiodd ein gweithgarwch monitro ar y pedwar cymhwyster cymorth cyntaf a reoleiddir a ddyfarnwyd i'r nifer fwyaf o unigolion yng Nghymru, sef:

- Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (EFAW)<sup>1</sup>;
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (FAW);
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig Brys (EPFA);
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig.

Mae cynnwys pob cymhwyster yn gyffredin ar draws pob un o'r cyrff dyfarnu. Mae gan bob cymhwyster yr un meini prawf asesu a deilliannau dysgu yn union, waeth pa gorff dyfarnu a reoleiddir sy'n cynnig y cymhwyster. Mae cyrff dyfarnu yn cydweithio i adolygu a diwygio'r cymwysterau yn ôl yr angen drwy Fforwm y Sefydliadau Dyfarnu Cymorth Cyntaf (FAAOF).

Mae aelodaeth o'r FAAOF yn agored i bob corff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau cymorth cyntaf. Mae ei gylch gorchwyl yn nodi bod HSE yn mynd ati i annog cyrff dyfarnu i gymryd rhan yn y fforwm a chydymffurfio â'r safonau a rennir sy'n ymwneud â chyflwyno, asesu a sicrhau ansawdd y mae'n cytuno arnynt. Mae cylch gwaith y fforwm yn nodi y bydd yn cynnal cywirdeb cymwysterau cymorth cyntaf drwy wneud y canlynol:

- Diogelu ansawdd gwaith asesu drwy godi pryderon a cheisio atebion pan fydd materion wedi'u nodi a allai beryglu enw da a chywirdeb y cymwysterau.
- Cydweithio â rhanddeiliaid priodol i ddylunio a datblygu cymwysterau cymorth cyntaf a sicrhau eu hansawdd a'u cysondeb a chytuno ar y ffyrdd gorau o gyfleu a lledaenu'r rhain mewn modd amserol.
- Dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu a gweithredu dulliau cadarn, dilys ac effeithiol o asesu cymwysterau cymorth cyntaf drwy gyfrannu at y gwaith o ddatblygu gofynion asesu.
- Trafod materion sy'n ymwneud â dehongli safonau a'u hansawdd a chytuno ar ddull gweithredu cyson a safonedig.
- Adolygu a datblygu unedau a strwythurau cymwysterau ar y cyd.

<sup>1</sup>Disodlwyd Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith gan Ddyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith ar 1 Hydref 2017.



Mae pob corff dyfarnu hefyd wedi cytuno ar ofynion cyffredin o ran asesu a thystiolaeth ac wedi nodi rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu hyfforddiant ar gymwysterau cymorth cyntaf, eu hasesu a sicrhau eu hansawdd. Nodir y gofynion hyn yn yr 'Assessment Principles for Regulated First Aid Qualifications' a luniwyd gan FAAOF (gweler Atodiad 1 am y fersiwn gyffredol). Nid ydynt yn rhan o'n gofynion rheoleiddiol. Mae pob corff dyfarnu yn llunio ei ddeunyddiau asesu a chymorth ei hun ac yn gweithredu ei brosesau cymeradwyo a monitro canolfannau ei hun.

Fel arfer, caiff cyrsiau sy'n arwain at ennill cymwysterau cymorth cyntaf eu cyflwyno dros gyfnod byr. Er enghraifft, fel arfer, cyflwynir cymhwyster Lefel 2 Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith mewn un diwrnod tra bod cymhwyster Lefel 3 Cymorth Cyntaf yn y Gwaith yn cael ei gwblhau dros dri diwrnod. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r holl ddysgu a chwblhau'r gwaith asesu gofynnol. Er mwyn cwblhau'r cymwysterau hyn yn llwyddiannus, rhaid i ddysgwyr ddangos cymhwysedd yn erbyn meini prawf asesu sy'n asesu p'un a allant gymhwyso sgiliau cymorth cyntaf ymarferol ac a oes ganddynt wybodaeth sylfaenol am y ffordd y dylai cynorthwydd cymorth cyntaf ymateb mewn argyfwng.

Dengys Tabl 1 nifer y tystysgrifau a roddwyd gan gyrff dyfarnu ar gyfer y cymwysterau cymorth cyntaf yng Nghymru a ddewiswyd rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016.

**Tabl 1: Tystysgrifau ar gyfer cymwysterau cymorth cyntaf yng Nghymru Hydref 2015 – Medi 2016**

Cymhwyster	Nifer y tystysgrifau
Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith	15,736
Dyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf yn y Gwaith	4,969
Dyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig	3,015
Dyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig Brys	1,354
<b>Cyfanswm</b>	<b>25,074</b>

Dengys Tabl 2 y cyrff dyfarnu a gynhwyswyd yn y rhaglen monitro cymwysterau cymorth cyntaf a chyfanswm y tystysgrifau a roddwyd gan bob corff dyfarnu rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016.

**Tabl 2: Tystysgrifau yn ôl corff dyfarnu yng Nghymru Hydref 2015 – Medi 2016**

<b>Corff dyfarnu</b>	<b>Nifer y tystysgrifau</b>
Highfield Qualifications	9,032
Qualsafe Awards	6,694
AoFA Qualifications	3,189
First Aid Awards Ltd	2,239
Safety Training Awards	1,511
Agored Cymru	1,059
Future (Awards and Qualifications) Ltd	357
ITC First	291
IQL	265
Training Qualifications UK Ltd	178
NCFE	124
Qualifications Network	84
YMCA Awards	35
Industry Qualifications	16
<b>Cyfanswm</b>	<b>25,074</b>

Rhoddir dadansoddiad o'r ystod o gymwysterau cymorth cyntaf y mae pob corff dyfarnu yn rhoi tystysgrifau ar eu cyfer yn Atodiad 2.

## 5. Sut y gwnaethom fonitro'r cymwysterau

Gwnaethom ysgrifennu at y 14 o gyrff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau cymorth cyntaf yng Nghymru a ddewiswyd ym mis Rhagfyr 2016, gan nodi ein dull monitro a gofyn am dystiolaeth er mwyn i ni ei hadolygu.

Canolbwyntiodd y gweithgarwch monitro ar y graddau yr oedd gwaith asesu yn ddilys ac yn rhoi canlyniadau dibynadwy, h.y. a wnaeth yr asesiadau brofi'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol yn effeithiol mewn ffordd a roddodd dystiolaeth ddigonol bod y rhai sy'n meddu ar y cymwysterau yn gynorthwywyr cymorth cyntaf cymwys. Canolbwyntiwyd hefyd ar brosesau'r cyrff dyfarnu ar gyfer cymeradwyo canolfannau i gyflwyno'r cymwysterau hyn a monitro canolfannau yn barhaus. Gwnaethom fonitro'r cyrff dyfarnu yn erbyn ein Hamodau Cydnabod Safonol, sy'n nodi gofynion sy'n ymwneud â dylunio a chyflwyno cymwysterau, eu hasesu a sicrhau eu hansawdd. Ystyriwyd hefyd unrhyw ofynion a nodir gan HSE yn 'First Aid at Work: The Health and Safety (First Aid) Regulations L74'.

Adolygwyd y wybodaeth a gyflwynwyd gan gyrff dyfarnu yn ystod 2017. Cynhaliwyd adolygiad desg o fanylebau cymwysterau, deunyddiau canllaw, prosesau rheoli canolfannau a pholisïau a gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol.

Cwblhawyd adolygiad technegol o ddeunyddiau asesu, samplau o dystiolaeth dysgwyr a aseswyd a dogfennaeth sicrhau ansawdd mewnol ac allanol ategol. Cyflogwyd panel o dri arbenigwr pwnc ac asesu allanol i wneud y gwaith hwn.

Lluniwyd holiadur ar-lein i geisio barn dysgwyr a oedd wedi cwblhau cymhwyster cymorth cyntaf yn ddiweddar. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 19 Mehefin a 31 Gorffennaf 2017. Er i ni gysylltu â phob canolfan sy'n cyflwyno cymwysterau cymorth cyntaf yng Nghymru er mwyn gofyn iddynt helpu i ddsbarthu manylion am yr holiadur i ddysgwyr, dim ond 69 o ymatebion a gawsom. Roedd hon yn gyfran fach iawn o'r dysgwyr sy'n cwblhau'r cymwysterau hyn ac roedd yn golygu na fyddai unrhyw ddadansoddiad o'r data a gasglwyd yn rhoi digon o wybodaeth i lunio casgliadau dibynadwy.

Fel rhan o'r gwaith o fonitro'r cymwysterau hyn, gwnaethom ymgysylltu â HSE ac AGC fel rhanddeiliaid sydd â diddordeb penodol yn y cymwysterau hyn a'r sector cymorth cyntaf. Gwnaethom hefyd ymgysylltu ar wahân â'n cyd-reoleiddwyr cymwysterau, sef Ofqual yn Lloegr, CCEA yng Ngogledd Iwerddon a SQA yn yr Alban. Mae pob un ond un o'r cyrff dyfarnu a gynhwyswyd yn y rhaglen fonitro hefyd yn cynnig yr un cymwysterau mewn un neu fwy o'r awdurdodaethau hyn. Ymgysylltwyd â phob rheoleiddiwr er mwyn sicrhau ei fod ymwybodol o'r gwaith roeddem yn ei wneud a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ein canfyddiadau a'r camau roeddem yn bwriadu eu cymryd.

## 6. Yr hyn a ganfuom

Nodwyd gennym fod cynnwys y cymwysterau yn addas at y diben a'i fod yn cynnwys deilliannau dysgu a meini prawf asesu priodol. Roeddem yn fodlon bod cynnwys y cymwysterau yn adlewyrchu arfer cymorth cyntaf cyfredol ac, yn achos cymwysterau cymorth cyntaf yn y gwaith, ei fod yn cynnwys y cynnwys HSE penodedig.

Dangosodd dau gorff dyfarnu i ni eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'n hamodau safonol. Roeddem yn fodlon bod eu hasesiadau yn ddilys ac yn ddibynadwy a bod prosesau sicrhau ansawdd yn gadarn. Roedd y cyrff dyfarnu hyn yn gallu dangos i ni bod eu hasesiadau yn effeithiol wrth brofi p'un a oedd dysgwr yn gynorthwyydd cymorth cyntaf cymwys ac yn meddu ar y wybodaeth sylfaenol ofynnol. Roeddent yn rhoi canllawiau clir a manwl i aseswyr ar y broses asesu a roddodd hyder i ni y dylai eu haseswyr allu gwneud penderfyniadau asesu effeithiol. Roedd asesiadau o wybodaeth ac asesiadau ymarferol wedi'u llunio'n dda ac yn darparu digon o dystiolaeth i seilio penderfyniadau cadarn ynghylch a oedd dysgwyr wedi bod yn llwyddiannus arnynt. Hefyd, dangosodd rhai cyrff dyfarnu eraill rywfaint o'r arfer da a nodwyd uchod ond ni allent wneud hynny yn gyson ar gyfer pob agwedd ar y cymwysterau.

Nodwyd diffygion sylweddol mewn 12 corff dyfarnu o ran y ffordd roeddent yn asesu'r cymwysterau hyn ac yn sicrhau eu hansawdd. O ganlyniad, barnwyd nad oedd pob un o'r 12 corff dyfarnu yn cydymffurfio â'n hamodau safonol am fod agweddau ar eu cymwysterau wedi methu â bodloni rhai o'r gofynion sy'n ymwneud â dilysrwydd a dibynadwyedd gwaith asesu. Yn achos pum corff dyfarnu, roedd diffyg cydymffurfiaeth yn amlwg mewn sawl maes ym mhob un o'r cymwysterau cymorth cyntaf a oedd yn cael eu cynnig ac ystyriwyd eu bod yn risg difrifol i ddilysrwydd y cymwysterau hynny.

Crynhair y meysydd pwysicaf o ddiffyg cydymffurfiaeth a nodwyd amlaf mewn perthynas â phob un o'r cymwysterau hyn yn yr adran hon.

## 6.1 Dilysrwydd a dibynadwyedd gwaith asesu

### Llunio asesiadau

Nodwyd gennym nad oedd 10 corff dyfarnu yn cydymffurfio ag Amodau D1 (*Addasrwydd cymwysterau at y diben*) nac E4 (*Sicrhau bod yr asesiad yn addas at y diben ac y gellir ei gynnal*), am eu bod wedi methu â sicrhau bod gwaith asesu yn addas at y diben i'r graddau ei fod yn ymdrin yn ddigonol â'r deilliannau dysgu a'r meini prawf gofynnol. Mae'r egwyddorion asesu ar gyfer cymwysterau cymorth cyntaf, a ddilynir gan y diwydiant cyfan yn glir, sef, er mwyn i asesiad fod yn ddilys, rhaid i bob deiliant dysgu gael ei gyflawni. Roedd yn destun pryder penodol, yn yr enghreifftiau mwyaf eithafol a adolygwyd, bod cyn lleied â 25% o'r meini prawf asesu ar gyfer Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith a Dyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf yn y Gwaith a aseswyd yn foddhaol. Nid oedd cysondeb ar draws cyrff dyfarnu o ran y ffordd yr ymdriniwyd â meini prawf asesu o fewn eu hasesiadau ac roedd hynny'n destun pryder.

Nodwyd y bylchau mwyaf sylweddol mewn meini prawf asesu lle roedd cyrff dyfarnu yn caniatáu i ganolfannau lunio eu deunyddiau asesu eu hunain. Mewn achosion o'r fath, nid oedd y cyrff dyfarnu wedi rhoi prosesau cymeradwyo a sicrhau ansawdd effeithiol ar waith i ddiogelu dilysrwydd yr asesiad.

### Cywirdeb penderfyniadau asesu a gwaith sicrhau ansawdd

Nodwyd gennym faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth mewn 12 corff dyfarnu mewn perthynas ag amodau G1 (*Gosod yr asesiad*), G9 (*Cynnal yr asesiad*) ac H1 (*Marcio'r asesiad*). Mae'r amodau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu roi meini prawf marcio clir i ganolfannau a sicrhau eu bod yn cael eu deall a'u cymhwyso'n gywir gan ganolfannau. Mae darparu meini prawf marcio clir a chanllawiau effeithiol yn helpu aseswyr i wneud penderfyniadau asesu dibynadwy a chyson. Yn aml nid oedd y meini prawf marcio yn ddigon manwl i alluogi canolfannau i gynnal asesiadau cywir. Mewn rhai o'r samplau o waith dysgwyr a adolygwyd, nid oedd unrhyw dystiolaeth o waith marcio neu roedd y gwaith marcio yn anghywir. Nid oedd y prosesau sicrhau ansawdd mewnol nac allanol wedi nodi'r diffygion hyn nac wedi mynd i'r afael â nhw. Nodwyd gennym nad oedd 10 corff dyfarnu yn cydymffurfio ag Amod H2 (*Cymedroli pan gaiff asesiad ei farcio gan ganolfan*) am fod y prosesau sicrhau ansawdd a oedd ar waith yn aneffeithiol. Mewn llawer o achosion, canolbwytiodd prosesau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol ar wiriadau gweithdrefnol, yn hytrach na dilysrwydd a dibynadwyedd yr asesiad.

Nid oedd y rhan fwyaf o gyrff dyfarnu yn rhoi canllawiau digonol o ran sut y dylai canolfannau gynnal asesiadau ymarferol. Roedd y dystiolaeth ategol a gâi ei darparu i ddangos bod dysgwyr wedi cwblhau'r asesiad ymarferol yn foddhaol a chadarnhau cymhwysedd yn wan. O ganlyniad, nodwyd gennym nad oedd naw corff dyfarnu yn cydymffurfio ag amod H5 (*Rhaid i ganlyniadau ar gyfer cymhwyster fod yn seiliedig ar ddigon o dystiolaeth*), sy'n ei gwneud yn ofynnol i ganlyniadau ar gyfer cymwysterau fod yn seiliedig ar ddigon o dystiolaeth. Ynghyd â'r diffyg canllawiau a meini prawf llwyddiant clir er mwyn helpu aseswyr i wneud penderfyniadau effeithiol a chyson ynghylch cymhwysedd ymarferol dysgwr, rydym yn pryderu y gall prosesau asesu ar gyfer y sgiliau cymorth cyntaf ymarferol allweddol hyn fod yn annibynadwy.

## **Amodau asesu**

Nodwyd gennym nad oedd 10 corff dyfarnu yn cydymffurfio ag Amod G8 (*Cwblhau'r asesiad o dan yr amodau gofynnol*), am nad oedd yr amodau asesu yn ddigon trylwyr i roi hyder i ni bod dysgwyr wedi'u hasesu'n annibynnol mewn ffordd a oedd yn eu galluogi i ddangos eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Roedd sawl corff dyfarnu yn gofyn i ddysgwyr gwblhau taflen waith neu lyfr gwaith, nad oedd angen eu cwblhau o dan amodau asesu priodol, wrth iddynt symud ymlaen drwy'r cwrs yn hytrach na neilltuo amser ar gyfer asesiadau crynodol.

## **Dilysrwydd tystiolaeth asesu**

Nodwyd nad oedd 12 corff dyfarnu yn cydymffurfio ag Amod G9 (*Cynnal yr asesiad*) am na wnaethant ddarparu digon o dystiolaeth i ddangos bod gwaith asesu yn cael ei chynhyrchu gan bob dysgwr a'i dilysu wedyn gan y dysgwr a'r aseswr. Mewn rhai achosion, roedd yr unig dystiolaeth ar gyfer asesiadau o wybodaeth ac asesiadau ymarferol ond wedi cael ei chofnodi gan yr aseswr yn unig ac nid oedd wedi'i dilysu gan y dysgwr.

## **6.2 Trefniadau gyda chanolfannau**

Roedd prosesau cymeradwyo canolfannau yn briodol ac yn cynnwys gwiriadau i ddilysu cymwysterau hyfforddwyr, aseswyr a swyddogion sicrhau ansawdd mewnol cyn i ganolfannau gyflwyno'r cymwysterau. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd saith corff dyfarnu yn cydymffurfio ag agweddau ar Amodau C1 neu C2 (*Trefniadau gyda thrydydd partiion canolfannau*), am nad oeddent yn monitro ac yn gorfodi trefniadau gyda chanolfannau yn effeithiol.

## **6.3 Gofynion o ran tystysgrifau**

Nodwyd gennym rai achosion lle nad oedd y tystysgrifau a roddwyd ar gyfer cymwysterau cymorth cyntaf yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan HSE (Cymorth cyntaf yn y gwaith: Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981. Canllawiau ar Reoleiddio). Yn yr achosion yma, roedd un neu fwy o'r gofynion canlynol wedi'u hepgor o'r tystysgrifau ar gyfer Dyfarniad Lefel 2 Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith a/neu Ddyfarniad Lefel 3 Cymorth Cyntaf yn y Gwaith:

- cyfnod dilysrwydd o dair blynedd o ddyddiad cwblhau'r cwrs;
- cyfeiriad at y ffaith bod y dystysgrif wedi'i rhoi at ddibenion cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981;
- datganiad bod yr addysgu wedi'i gyflwyno yn unol ag arfer cymorth cyntaf a dderbynnir ar hyn o bryd.

## 7. Y camau a gymerwyd gennym

Yn ystod hydref 2017, gwnaethom gyflwyno ein canfyddiadau i bob corff dyfarnu gan nodi'r hyn roeddem yn disgwyl iddynt ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth a nodwyd gennym. At hynny, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am ein canfyddiadau a'r camau roeddem yn bwriadu eu cymryd i'n cyd-reoleiddwyr cymwysterau.

Gwnaethom gyflwyno hysbysiad i bum corff dyfarnu (Agored Cymru, Future (Awards and Qualifications Ltd, IQL, ITC First a Safety Training Awards) a oedd yn nodi ein bwriad i roi cyfarwyddyd yn gofyn iddynt gymryd camau unioni penodol erbyn 1 Chwefror 2018 er mwyn cydymffurfio â'n hamodau safonol. Gwnaethom hyn am ein bod wedi nodi materion o bwys yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth a oedd yn tanseilio dilysrwydd y cymwysterau hynny i'r fath raddau fel na allent barhau i gael eu dyfarnu ar y ffurf honno.

Cyflwynodd pob un o'r cyrff dyfarnu y cyflwynwyd yr hysbysiad iddynt ymrwymiad ffurfiol i ni a gadarnhaodd y byddent yn cymryd camau er mwyn mynd i'r afael â phob un o'r materion a nodwyd gennym. Derbyniwyd yr ymgymeriadau hyn fel dewis amgen i roi'r cyfarwyddiadau a chyhoeddwyd yr ymgymeriadau ar ein gwefan<sup>2</sup>.

Gwnaethom ofyn i saith corff dyfarnu – sef AoFA Qualifications, First Aid Awards Ltd, Highfield Qualifications, Industry Qualifications, NCFE, Training Qualifications UK Ltd ac YMCA Awards – gyflwyno cynlluniau gweithredu i ni, erbyn 1 Chwefror 2018, gan nodi sut roeddent yn bwriadu mynd i'r afael â'r achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth a nodwyd gennym. Roedd y risgiau i ddilysrwydd y cymwysterau yn llai sylweddol a/neu uniongyrchol na'r rhai a arweiniodd at ymgymeriad. Fodd bynnag, roeddent yn cynnwys materion a oedd yn gofyn am welliant cyflym er mwyn bodloni ein hamodau safonol.

Nodwyd bod dau gorff dyfarnu, sef Quasafe Awards a Qualifications Network, yn cydymffurfio â'n hamodau mewn perthynas â'u cymwysterau cymorth cyntaf. Nodwyd un mater bach gennym o ran diffyg cydymffurfiaeth ar gyfer Qualifications Network a oedd yn ymwneud â'r defnydd cywir o'n logo ar dystysgrifau, ond nid effeithiodd hyn mewn unrhyw ffordd ar ddilysrwydd na dibynadwyedd ei gymwysterau.

<sup>2</sup><http://qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/rheoleiddio-cyrff-dyfarnu/cosbau-a-gorfodi/camau-rheoleiddiol/>

Gwnaethom argymhellion hefyd i bob corff dyfarnu lle y nodwyd meysydd y gellid eu gwella, ond nad oeddent yn gyfystyr â diffyg cydymffurfiaeth â'n hamodau safonol. Argymhellwyd y dylai cyrff dyfarnu ystyried y materion hyn, ond ni ofynnwyd iddynt gymryd unrhyw gamau. Cyflwynwyd argymhellion pan nodwyd nad oedd cyrff dyfarnu yn dilyn canllawiau HSE ar gynnwys tystysgrifau.

Rhoddodd pob corff dyfarnu a gyflwynodd ymgymeriad neu gynllun gweithredu i ni dystiolaeth i ni erbyn 1 Chwefror 2018 a oedd yn nodi'r newidiadau a wnaed ganddynt. Gwnaethom edrych ar yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o gynlluniau gweithredu'r cyrff dyfarnu. Rydym yn fodlon bod y pum corff dyfarnu a gyflwynodd ymgymeriad i ni wedi cwblhau'r camau gweithredu gofynnol ac nid ydym bellach yn ystyried eu bod yn methu â chydymffurfio. Mae'r saith corff dyfarnu yr oedd yn ofynnol iddynt gyflwyno cynlluniau gweithredu i ni wedi cymryd camau priodol er mwyn mynd i'r afael â phob maes o ddiffyg cydymffurfiaeth a nodwyd gennym.



## 8. Casgliad a'r camau nesaf

Rydym yn falch bod pob corff dyfarnu wedi ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau ein gwaith monitro ac wedi ceisio mynd i'r afael â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfiaeth. Yn sgîl ein gweithgaredd monitro, rydym yn hyderus bod mwy o gysondeb bellach o ran arfer a thrylwyrdd rhwng pob un o'r cyrff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau hyn. Dylai'r camau a gymerwyd gennym roi hyder i gyflogwyr sy'n dewis cymhwyster cymorth cyntaf a reoleiddir ar gyfer eu cyflogeion ac ar gyfer dysgwyr sydd wedi cofrestru i astudio ar gyfer y cymwysterau hyn.

Rydym hefyd yn falch, yn Fforwm y Sefydliadau Dyfarnu Cymorth Cyntaf (FAAOF), fod system eisoes ar waith i alluogi cyrff dyfarnu i gydweithio er mwyn pennu safonau priodol ar gyfer y cymwysterau hyn. Mae gan y Fforwm ran bwysig i'w chwarae wrth sicrhau safoni ar draws cyrff dyfarnu sy'n gweithredu yn y sector hwn. Rydym yn disgwyl i bob corff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau cymorth cyntaf chwarae rhan weithredol yn y Fforwm. Rydym yn argymhell y dylai aelodau'r Fforwm ystyried pa gamau pellach y gallent eu cymryd er mwyn sicrhau safoni parhaus ar draws cyrff dyfarnu.

Mae'n bosibl nad yw'r diffygion a nodwyd wrth fonitro cymwysterau cymorth cyntaf wedi'u cyfyngu i'r sector hwnnw. Gwnaethom argymhell y dylai pob corff dyfarnu a oedd yn rhan o'r gweithgarwch monitro hwn ystyried eu cymwysterau galwedigaethol eraill o ystyried ein canfyddiadau a'u methiant i gydymffurfio. Byddwn yn monitro cymwysterau mewn diogelwch bwyd yn ystod 2018 a chymwysterau mewn iechyd a diogelwch yn 2019. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddilysrwydd a dibynadwyedd y cymwysterau galwedigaethol yn ystod y ddau weithgaredd monitro hyn sydd wedi'u trefnu. Efallai y byddwn yn cynnal gweithgareddau eraill i fonitro cymwysterau galwedigaethol hefyd mewn ymateb i faterion a nodir gennym. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cyd-reoleiddwyr cymwysterau er mwyn rhannu unrhyw bryderon ynghylch y modd y caiff cymwysterau galwedigaethol eu cyflwyno, eu hasesu a'u dyfarnu a thrafod sut y gallwn gydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hynny. Rydym yn annog pob corff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau a reoleiddir i ystyried p'un a yw'r materion a nodwyd gennym hefyd yn peryglu dilysrwydd y cymwysterau a gynigir ganddynt ac, os felly, gymryd y camau priodol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hynny.

# Atodiad 1 – Assessment Principles for Regulated First Aid Qualifications

## Assessment Principles for Regulated First Aid Qualifications 2017 version 6

### Introduction

These Assessment Principles have been produced by the First Aid Awarding Organisation Forum (FAAOF) in cooperation with the Health and Safety Executive (HSE) and Qualification Regulators.

These principles must be applied in addition to the generic criteria and regulations that Ofqual/SQA Accreditation/Qualifications Wales/CCEA Regulation require Awarding Organisations/Bodies meet for the delivery of regulated/accredited qualifications.

Awarding Organisations/Bodies who follow these First Aid Assessment Principles should also participate in the First Aid Awarding Organisation Forum (FAAOF) in line with the FAAOF Terms of Reference.

This document relates to First Aid Qualifications including but not limited to:

- **First Aid at Work (FAW)**
- **Emergency First Aid at Work (EFAW)**
- **Paediatric First Aid (PFA)**
- **Emergency Paediatric First Aid (EPFA)**

This document deals with training, assessment, evidence and quality assurance under the following headings:

- Roles and responsibilities of those involved in the training, assessment and quality assurance processes
- Assessment and sources of evidence

## **Roles and Responsibilities of those involved in the Training, Assessment and Quality Assurance Processes**

This document details the requirements of Trainers and Assessors separately. It is accepted, however, that both roles may be performed by the same person, providing the qualifications and experience requirements for both roles are met.

### **Trainers**

Those involved in the training of these qualifications must have knowledge and competency in first aid as well as knowledge and competency to train based on qualifications and experience. An acceptable portfolio must show:

**i. Occupational knowledge and competence in first aid - evidenced by:**

- Holding a first aid at work qualification/medical registration as detailed in Appendix 1

**ii. Knowledge and competency in teaching/training first aid - evidenced by:**

- Holding an acceptable teaching/training qualification as detailed in Appendix 2

**AND either:**

- Providing an acceptable log of teaching first aid within the last 3 years or
- Providing an acceptable record of competently teaching theoretical and practical first aid sessions under the supervision of a suitably qualified Trainer/Assessor

### **Assessors**

Those involved in the assessment of these qualifications must have knowledge and competency in first aid as well as knowledge and competency to assess based on qualifications and experience. An acceptable portfolio must show:

**i. Occupational knowledge and competence in first aid - evidenced by:**

- Holding a first aid at work qualification/medical registration as detailed in Appendix 1

**ii. Knowledge and competency in assessing first aid - evidenced by:**

- Holding an acceptable assessing qualification/CPD Training as detailed in Appendix 2

**AND either:**

- Providing an acceptable log of first aid assessments conducted within the last 3 years or
- Providing an acceptable record of competently assessing theoretical and practical first aid qualifications under the supervision of a suitably qualified assessor.

## Internal Quality Assurance

Those involved in the internal quality assurance of these qualifications (IQAs) must have knowledge and competency in first aid as well as knowledge and competency in internal quality assurance. An acceptable portfolio must show:

**i. Occupational knowledge and competence in first aid - evidenced by:**

- Holding a first aid at work qualification/medical registration as detailed in Appendix 1

**ii. Knowledge and competency in internal quality assurance – evidenced by:**

- Holding an acceptable internal quality assurance qualification/CPD training as detailed in Appendix 3

Internal Quality Assurers must:

- Have knowledge of the requirements of the qualification they are quality assuring at the time any assessment is taking place.
- Have knowledge and understanding of the role of assessors.
- Visit and observe assessments.
- Carry out other related internal quality assurance.

## External Quality Assurance

Those involved in the external quality assurance of these qualifications (EQAs) must have knowledge and competency in first aid as well as knowledge and competency in external quality assurance. An acceptable portfolio must show:

**i. Occupational knowledge and competence in first aid - evidenced by:**

- Holding a first aid at work qualification/medical registration as detailed in Appendix 1

**ii. Knowledge and competency in external quality assurance – evidenced by:**

- Holding an acceptable external quality assurance qualification as detailed in Appendix 4

External Quality Assurers must:

- Have knowledge of the requirements of the qualification they are quality assuring at the time any assessment is taking place.
- Have knowledge and understanding of the role of Assessors and Internal Quality Assurers.

## Assessment and Sources of Evidence

### Assessment Centres

Assessment Centres will be responsible for maintaining up-to-date information on trainers, assessors and Internal Quality Assurers and for ensuring the currency of the competence of all those involved in the assessment and internal quality assurance process.

### Simulation

Simulation is permitted – Each unit details what may be simulated.

### Assessment

The assessment should determine a learner's ability to act safely, promptly and effectively when an emergency occurs at work and to deal with a casualty. All learning outcomes in the unit(s) must be achieved. Assessment may take place at any time during the delivery of the qualification and does not need to be done as a final assessment. It is however a requirement for the learner to be aware that assessment is taking place.

### Standards of first aid practice

Skills and knowledge should be taught and assessed in accordance with currently accepted first aid practice in the United Kingdom as laid down:

- by the Resuscitation Council (UK)
- *and*
- in other publications; provided that they are supported by a responsible body of medical opinion.

## Occupational Knowledge and Competence in First Aid - Appendix 1

All trainers, assessors, internal quality assurers and external quality assurers must have occupational knowledge and competence in first aid.

### This may be evidenced by:

- Holding a qualification issued by an Ofqual/SQA Accreditation/Qualifications Wales/CCEA Regulation recognised Awarding Organisation/Body (or equivalent<sup>1</sup>) as follows:

Qualification delivered:	Minimum qualification to be held by the Trainer/Assessor/IQA/EQA: <sup>1</sup>
First Aid at Work or Emergency First Aid at Work	First Aid at Work
Paediatric First Aid or Emergency Paediatric First Aid	Paediatric First Aid or First Aid at Work

### Or

- Current registration as a Doctor with the General Medical Council (GMC)<sup>2</sup>

### Or

- Current registration as a Nurse with the Nursing and Midwifery Council (NMC)<sup>2</sup>

### Or

- Current registration as a Paramedic with the Health and Care Professions Council (HCPC)<sup>2</sup>.

<sup>1</sup> if the trainer/assessor/IQA/EQA holds a non-regulated first aid qualification the awarding organisation/body should undertake due diligence to ensure current occupational knowledge and competence.

<sup>2</sup> registered healthcare professionals must act within their scope of practice and therefore have current expertise in first aid to teach/assess the subject.

## Acceptable Training/Assessing Qualifications - Appendix 2

This list is not exhaustive but provides a guide to acceptable training and/or assessing qualifications. Trainers who also assess learner competence must hold a qualification (or separate qualifications) to enable them to perform both functions.

Qualification	Train	Assess*
<b>CURRENT QUALIFICATIONS (available for new trainers/assessors to undertake):</b>		
Level 3 Award in Education and Training		
Level 4 Certificate in Education and Training		
Level 5 Diploma in Education and Training		
Level 3 Award in Teaching and Assessing in First Aid Qualifications (RQF)		
Cert Ed/PGCE/B Ed/M Ed		
SVQ 3 Learning and Development SCQF Level 8		
SVQ 4 Learning and Development SCQF Level 9		
TQFE (Teaching Qualification for Further Education)		
Planning and Delivering Learning Sessions to Groups SCQF Level 6 (SQA Unit)		
SCQF Level 6 Award in Planning and Delivering Learning Sessions to Groups (SQA Accredited)		
L&D Unit 6 Manage Learning and Development in Groups SCQF Level 8 (SQA Accredited)		
L&D Unit 7 Facilitate Individual Learning and Development SCQF Level 8 (SQA Accredited)		
L&D Unit 8 Engage and Support Learners in the Learning and Development Process SCQF Level 8 (SQA Accredited)		
Carry Out the Assessment Process SCQF Level 7 (SQA Unit)		
Level 3 Award in Assessing Competence in the Work Environment		
Level 3 Award in Assessing Vocationally Related Achievement		
Level 3 Award in Understanding the Principles and Practices of Assessment		
Level 3 Certificate in Assessing Vocational Achievement		
L&D Unit 9DI Assess Workplace Competence Using Direct and Indirect Methods SCQF Level 8 (SQA Accredited)		
L&D Unit 9D Assess Workplace Competence Using Direct Methods SCQF Level 7 (SQA Accredited)		

OTHER ACCEPTABLE QUALIFICATIONS:		
CTLTS/DTLLS		
PTLLS with unit 'Principles and Practice of Assessment' (12 credits)		
Further and Adult Education Teacher's Certificate		
IHCD Instructional Methods		
IHCD Instructor Certificate		
English National Board 998		
Nursing mentorship qualifications		
NOCN Tutor Assessor Award		
S/NVQ level 3 in training and development		
S/NVQ level 4 in training and development		
PDA Developing Teaching Practice in Scotland's Colleges SCQF Level 9 (SQA Qualification)		
PDA Teaching Practice in Scotland's Colleges SCQF Level 9 (SQA Qualification)		
PTLLS (6 credits)		
Regulated Qualifications based on the Learning and Development NOS 7 Facilitate Individual Learning and Development or NOS 6 Manage Learning and Development in Groups		
Training Group A22, B22, C21, C23, C24		
Learning and Teaching – Assessment and Quality Standards SCQF Level 9 (SQA Unit)		
A1 Assess Candidates Using a Range of Methods or D33 Assess Candidates Using Differing Sources of Evidence		
Conduct the Assessment Process SCQF Level 7 (SQA Unit)		
A2 Assess Candidate Performance through Observation or D32 Assess Candidate Performance		
Regulated Qualifications based on the Learning and Development NOS 9 Assess Learner Achievement		

**\*Assessors who do not hold a formal assessing qualification may alternatively attend First Aid Assessor CPD Training with an Awarding Organisation/Body.**



## Qualifications suitable for Internal Quality Assurance - Appendix 3

This list is **not exhaustive** but provides a guide to acceptable IQA qualifications:

L&D Unit 11 Internally Monitor and Maintain the Quality of Workplace Assessment  
SCQF Level 8

(SQA Accredited)

Level 4 Award in the Internal Quality Assurance of Assessment Processes and  
Practice

Level 4 Certificate in Leading the Internal Quality Assurance of Assessment  
Processes and Practice

Conduct the Internal Verification Process SCQF Level 8 (SQA Unit)

Regulated Qualifications based on the Learning and Development NOS 11 Internally  
Monitor and Maintain the Quality of Assessment

V1 Conduct Internal Quality Assurance of the Assessment Process or D34 Internally  
Verify the Assessment Process

Internally Verify the Assessment Process SCQF Level 8 (SQA Unit)

### **NOTE:**

**IQA's who do not hold a formal IQA qualification may alternatively attend Internal Quality Assurance CPD Training with an Awarding Organisation/Bodies**

## Qualifications suitable for External Quality Assurance - Appendix 4

This list is **not exhaustive** but provides a guide to acceptable EQA qualifications:

L&D Unit 12 Externally Monitor and Maintain the Quality of Workplace Assessment SCQF Level 9 (SQA Accredited)
Regulated qualifications based on the Learning and Development NOS 12 Externally Monitor and Maintain the Quality of Assessment
Level 4 Award in the External Quality Assurance of Assessment Processes and Practice
Level 4 Certificate in Leading the External Quality Assurance of Assessment Processes and Practice
Conduct External Verification of the Assessment Process SCQF Level 9 (SQA Unit)
V2 Conduct External Quality Assurance of the Assessment Process or D35 Externally Verify the Assessment Process
Externally Verify the Assessment Process SCQF Level 9 (SQA Unit)

It is understood that not all EQA's will be qualified initially, and that sufficient time should be considered to achieve these qualifications. During this time Awarding Organisations/Bodies must ensure that EQA's are following the principles set out in the current Learning and Development NOS 12 Externally monitor and maintain the quality of assessment.

## Atodiad 2 – Ystadegau ar gyfer cymwysterau cymorth cyntaf

Dengys Tabl 1 y cymwysterau cymorth cyntaf a oedd yn cael eu cynnig gan bob corff dyfarnu a fu'n rhan o'n gweithgarwch monitro a nifer y tystysgrifau ar gyfer pob un o'r cymwysterau hynny yng Nghymru rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016.

**Tabl 1: Cymwysterau cymorth cyntaf a oedd yn cael eu cynnig gan bob corff dyfarnu, 2015-16**

Corff dyfarnu	Cymhwyster (cymwysterau) a oedd yn cael ei gynnig (eu cynnig) a nifer y tystysgrifau			
	EFAW	FAW	EPFA	PFA
Agored Cymru	724	309		26
AoFA Qualifications	2,539	379	67	204
First Aid Awards Ltd	1,625	408	156	50
Future (Awards and Qualifications) Ltd	208	149		
Highfield Qualifications	5,705	1,374	473	1,480
Industry Qualifications	16			
IQL	172	22	61	10
ITC First	259	20		12
NCFE				124
Qualifications Network	22	53		9
Qualsafe Awards	3,607	1,752	518	817
Safety Training Awards	818	443	33	217
Training Qualifications UK Ltd	818	443	33	217
YMCA Awards	35			